Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

# NEWYDDION Y SECTOR DYSGU CYMRAEG

## Haf 2026

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG Dysgu Learn

# Croeso

Helo bawb,

Wrth i'r flwyddyn academaidd hon ddod i ben, mae gennym garreg filltir arbennig iawn i'w dathlu – sef deng mlynedd ers sefydlu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Byddwn yn cael cyfle i ddathlu llwyddiannau ein dysgwyr a thiwtoriaid – a'r sector ehangach – yn Eisteddfod y Garreg Las ymhen rhai wythnosau, gyda chynifer sydd wedi bod yn rhan o'r daith dros y degawd diwethaf.

Mae'r sector wedi mynd o nerth i nerth, ac mae ein data diweddaraf yn dangos bod dros 20,000 o unigolion wedi dysgu Cymraeg yn ystod 2024-2025. Dyma'r nifer uchaf erioed, ac mae'n newyddion gwych. Diolch o galon i bob un ohonoch chi am gefnogi ein dysgwyr ar hyd pob cam o'u taith, ac am greu siaradwyr Cymraeg newydd sy'n mwynhau defnyddio'r iaith.

Roedd hi'n bleser gweld cymaint ohonoch yn ein Cynhadledd Genedlaethol yn Llandrindod yn ddiweddar. Diolch i bawb am fod mor barod i rannu arfer dda yn y gweithdai, ac edrychwn ymlaen at fanteisio ar y syniadau a drafodwyd dros y misoedd nesaf.

Mae gennym haf prysur o'n blaenau, felly, gydag amserlen gyffrous o ddigwyddiadau yn yr Eisteddfod, cyn i'n golygon droi at y tymor newydd.

Dw i'n gobeithio cewch chi gyfle am hoe cyn hynny, a dymuniadau gorau i chi gyd dros y misoedd nesaf.

Cofion cynnes,

**Dona Lewis**
**Prif Weithredwr**
**Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**



# Cyhoeddi cynllun Llysgenhadon Dysgu Cymraeg

Mae pedwar wyneb cyfarwydd wedi ymuno â ni fel Llysgenhadon Dysgu Cymraeg i ysbrydoli mwy o bobl i ddysgu, defnyddio a mwynhau'r Gymraeg.

Bydd Aleighcia Scott, Tori James, Katie Owen, ac Ian Gwyn Hughes yn gweithio gyda'r Ganolfan i dynnu sylw at waith y sector Dysgu Cymraeg, yn ogystal â rhannu eu profiadau personol o'r iaith.

Mae mwy o wybodaeth am y cynllun ar gael yma: [Y Ganolfan Genedlaethol yn cyhoeddi cynllun Llysgenhadon Dysgu Cymraeg | Dysgu Cymraeg]



Aleighcia Scott



Tori James



Ian Gwyn Hughes



Katie Owen

# Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las 2026




’Dyn ni’n edrych ymlaen at yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llantwd, ger Aberteifi, ac yn arbennig felly at ddigwyddiad fydd yn dathlu deng mlynedd ers sefydlu’r Ganolfan.

Byddwn yn cynnal digwyddiad a gwobrau ‘Dathlu’r Deg’ ar nos Fawrth 4 Awst am 5.30yh.  Dyma ddigwyddiad ar gyfer y sector, a chyfle i ni ddod at ein gilydd i ddathlu twf a gweithgaredd y degawd.  Os hoffech fynychu'r digwyddiad, a wnewch chi gofrestru ar y ddolen nesaf cyn 10 Gorffennaf os gwelwch yn dda – Digwyddiad Dathlu Dysgu Cymraeg Eisteddfod y Garreg Las | Dysgu Cymraeg

Bydd digwyddiadau niferus eraill, gan gynnwys sesiynau ym Mhabell y Cymdeithasau yn edrych ar dwf y sector ac effaith gadarnhaol siaradwyr newydd ar ddiwylliant Cymraeg.  Bydd rhaglen lawn o weithgareddau ym Maes D, pentref y dysgwyr, yn ogystal â seremoni Dysgwr y Flwyddyn, un o uchafbwyntiau’r brifwyl.

Ewch i dysgucymraeg.cymru i weld yr amserlen lawn.

# Cyrsiau newydd mis Medi

Yn ôl yr arfer, mae’r paratoadau eisoes ar waith i hyrwyddo’r ystod eang o gyrsiau fydd ar gael ym mis Medi.  Mae cynigion arbennig ar gael i ddysgwyr cyfredol a rhai newydd:

Mehefin a Gorffennaf – Gostyngiad o 50% i ddysgwyr cyfredol drwy ddefnyddio’r cod ‘CYW26’.

Awst a Medi – Gostyngiad o 50% i ddysgwyr newydd drwy ddefnyddio’r cod ‘WELSH26’.

Cod: CYW26

Cod: WELSH26



# Atodiad Lingo




Cadwch lygad allan am atodiad y Ganolfan yn rhifyn haf cylchgrawn Lingo.  Bydd Lingo ar gael i'w brynu yn yr Eisteddfod, a bydd copïau am ddim yn cael eu rhannu â'r darparwyr hefyd, i chi eu defnyddio wrth hyrwyddo cyfleoedd Dysgu Cymraeg.

# Cynllun WSOL



Mae MEDR wedi comisiynu'r Ganolfan i ddatblygu cwrs WSOL penodol, er mwyn sicrhau cyfleoedd Dysgu Cymraeg i bobl nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. 'Dyn ni eisoes wedi datblygu pecyn gwerthfawr, 'Croeso i Bawb', sy'n cyflwyno'r Gymraeg drwy gyfrwng nifer o ieithoedd gwahanol, gan gynnwys Cantoneg, Wcreineg, Arabeg Syria, Farsi a Pashto.

# Cefnogi'r sector Chwaraeon



Mae'r Ganolfan wedi gwneud llawer o waith yn y sector chwaraeon dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r gwaith hwnnw'n parhau i dyfu.  Bydd cynllun chwaraeon newydd yn adeiladu ar y partneriaethau llwyddiannus sydd eisoes wedi'u sefydlu â Chymdeithas Bêl-droed Cymru a Chlwb Pêl-droed Wrecsam.  Nod y cynllun fydd darparu cyfleoedd Dysgu Cymraeg hyblyg, ar draws ystod o feysydd gwahanol, er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn rhan naturiol o fywyd chwaraeon Cymru.

# Cefnogi gweithwyr Gofal Plant gyda'u sgiliau Cymraeg



Er mwyn ateb y galw am wasanaethau gofal plant dwyieithog, 'dyn ni'n lansio cynllun peilot newydd o fewn y Sector Gofal Plant a Chwarae. 'Dyn ni wedi bod yn cefnogi'r sector ers 2017, ac mae dros 5,000 o weithwyr eisoes wedi manteisio ar y ddarpariaeth. Bydd y cam nesaf yn canolbwyntio ar ehangu capasiti'r gweithlu, drwy gyflwyno rhaglenni Dysgu Cymraeg i fyfyrwyr Colegau Addysg Bellach a phrentisiaid, penodi tiwtoriaid i weithio'n uniongyrchol â'r sector, a darparu hyfforddiant i weithwyr Dechrau'n Deg.

# Cynhadledd IATEFL




Aeth Mair Lenny Turner a Helen Prosser i gynhadledd ryngwladol IATEFL yn Brighton yn ddiweddar, i roi cyflwyniad ar adnoddau Dysgu Cymraeg i oedolion. Fe wnaethon nhw ganolbwyntio ar ein llyfrau cwrs ac ar sut mae'r platfform digidol yn helpu dysgwyr i barhau i ddefnyddio'u Cymraeg y tu allan i'r dosbarth. Roedd y gynhadledd yn gyfle gwych i drafod dysgu digidol, a photensial deallusrwydd artiffisial, gan rannu syniadau ag addysgwyr iaith o bob cwr o'r byd. Dilynwch y ddolen nesaf i ddarllen mwy am y gynhadledd:
[Argraffiadau Dr Mair Lenny Turner o'r Gynhadledd IATEFL | Dysgu Cymraeg]



# Cynhadledd Genedlaethol y Ganolfan

Roedd hi'n bleser croesawu tiwtoriaid a staff y sector i Landrindod ar 22 Mai ar gyfer ein cynhadledd flynyddol.  Un o'r siaradwyr gwadd oedd Llion Jones, arbenigwr rhyngwladol ar Ddeallusrwydd Artiffisial a chyd-sylfaenydd Sakana AI, yn Tokyo.  Dilynwch y ddolen nesaf i ddarllen mwy am Llion:
[Arbenigwr ar ddeallusrwydd artiffisial i annerch cynhadledd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol | Dysgu Cymraeg]

# Gwobr Tiwtor Ysbrydoli!

Llongyfarchiadau i Ruth Lloyd, tiwtor gyda Dysgu Cymraeg Morgannwg, am ennill Gwobr Tiwtor yn y Gwobrau Ysbrydoli!, sy'n cael eu trefnu gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith.  Mae Ruth wedi cael ei chydnabod am ei gwaith yn cyflwyno'r Gymraeg yn y gweithle ac am ddatblygu'r cwrs ysgrifennu creadigol, 'O'r gair i'r gerdd'.






# Cyrsiau i diwtoriaid

Mae tri chwrs hyfforddi Arweinwyr Yfory wedi cael eu cynnal erbyn hyn, y cyntaf yn Aberteifi, yr ail yn Llandrindod a'r trydydd yn Nant Gwrtheyrn, gyda phynciau fel y CEFR ac adnoddau'r cwrs Canolradd newydd o dan drafodaeth. 'Dyn ni'n edrych ymlaen at hyfforddi criw newydd o bobl ifanc ar gwrs Tiwtoriaid Yfory ganol y mis. Byddant yn derbyn hyfforddiant gan y Ganolfan gyda chymorth Dysgu Cymraeg Caerdydd.

# Hyfforddiant 2026/2027

'Dyn ni wedi paratoi rhaglen lawn o hyfforddiant ar eich cyfer dros y flwyddyn sydd i ddod. Yn eu plith mae cyflwyniadau ar y Cwrs Canolradd newydd, sesiynau ar ramadeg a'r Gynhadledd Genedlaethol fydd yn cael ei chynnal yn rhithiol ar 5 Mawrth 2027. Mae modd cofrestru ar yr holl sesiynau ar Academi.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG
Dysgu
Learn